

Cod ymddygiad i ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio

Mae ymgyrchwyr yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth iach, a dylid cefnogi a diogelu eu hawl i gyflwyno eu dadleuon i bleidleiswyr. Fodd bynnag, mae'n llawn mor bwysig i sicrhau nad yw gweithgareddau ymgyrchwyr yn effeithio'n anffafriol ar hygyrdded y broses etholiadol.

Mae'r Cod hwn yn darparu canllaw ar gyfer ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a lluoedd yr heddlu ynghylch yr hyn sydd, ac nad yw, yn cael ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio.

Fel egwyddor arweiniol, os oes unrhyw amheuon ynghylch gweithgaredd neilltuol, dylai ymgyrchwyr ofyn iddynt eu hunain "Beth fyddai sylwedydd rhesymol yn ei feddwl?"

Gellir gweld cyfarwyddyd manylach ynghylch troseddau etholiadol yn y canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid sydd ar gael yn:

http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/173060/UKPGE-Part-4-The-campaign-W.pdf

Anfonwyd y Cod at yr holl bleidiau gwleidyddol cofrestredig ym Mhrydain Fawr, a bydd Swyddogion Canlyniadau'n ei ddwyn i sylw'r holl ymgeiswyr a phleidiau sy'n brywdro etholiadau.

Efallai bydd rhai Swyddogion Canlyniadau yn nodi'r angen i ddatblygu a chael cytundeb ar ddarpariaethau lleol penodol sy'n atodi telerau'r Cod hwn, er mwyn mynd i'r afael â risgiau lleol a nodir. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ymgynghori gydag ymgyrchwyr a'r Swyddogion Enwebu cenedlaethol perthnasol, yn ogystal â lluoedd yr heddlu i sicrhau lefel addas o gytundeb yn lleol i ddarpariaethau o'r fath, a dylent sicrhau eu bod yn cael eu cyfaterbu ac yn cael eu deall gan ymgyrchwyr yn lleol.

Cwmpas y cod hwn

Mae'r cod hwn yn cwmpasu pawb sy'n gysylltiedig yn weithredol ag ymgyrchu mewn etholiadau neu refferenda ym Mhrydain Fawr. Mae'r holl gyfeiriadau at ymgyrchwyr yn y cod hwn yn cynnwys:

- Ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad, eu hasiantiaid a'u staff a'u cefnogwyr
- Swyddogion, aelodau a chefnogwyr plaid wleidyddol yn ymgyrchu mewn etholiad
- Pobl a sefydliadau eraill yn ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeisydd, grŵp o ymgeiswyr neu blaid mewn etholiad
- Pobl a sefydliadau yn ymgyrchu dros neu yn erbyn canlyniad neilltuol mewn refferendwm

Cydymffurfio â'r cod hwn

Dylid codi unrhyw bryderon bod rhywun wedi torri ar y cod hwn gyda'r ymgeisydd, plaid wleidyddol neu yngyrchydd dan sylw yn y lle cyntaf.

Dylid dwyn unrhyw bryderon pellach i sylw'r Comisiwn Etholiadol. Bydd y Comisiwn yn eu codi gyda'r blaid neu ymgyrchydd perthnasol os yw'n briodol, a bydd yn cytuno ar gamau gweithredu priodol i unioni neu atal ailadroddiad o unrhyw doriad.

1 Cofrestru i bleidleisio a cheisiadau pleidlais absennol

- 1.1 Dylai ymgyrchwyr fod yn rhydd i annog pleidleiswyr i gofrestru i bleidleisio ac i wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan, os mai dyna'r modd mwyaf hwylus iddynt bleidleisio.**

Gall ymgyrchwyr helpu hysbysu pleidleiswyr ynghylch sut i gymryd rhan mewn etholiadau, a dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol eich cefnogi drwy ddarparu nifer rhesymol o ffurflenni cais cofrestru a ffurflenni cais am bleidlais absennol ar gais. Gall pleidleiswyr hefyd gofrestru ar-lein:

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

- 1.2 Dylai ymgyrchwyr sicrhau bod unrhyw ffurflenni cofrestru i bleidleisio a ffurflenni cofrestru drwy'r post neu drwy ddirprwy yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion cyfraith etholiadol, gan gynnwys y cwestiynau angenrheidiol a'r opsiynau sydd ar gael i etholwyr.**

Gallwch lawrlwytho ffurflenni cofrestru etholiadol o www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio a ffurflenni pleidlais absennol o www.fymhleidlaisi.co.uk

- 1.3 Dylai ymgyrchwyr sicrhau bod cyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol yn glir fel y cyfeiriad dewisol i ddychwelyd y ffurflenni cofrestru a phleidlais absennol.**

I sicrhau y gall pleidleiswyr wneud eu dewis eu hunain o ran sut i ddychwelyd ffurflenni cofrestru neu bleidlais absennol, dylech nodi cyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol fel y cyfeiriad i ddychwelyd y ffurflen, hyd yn oed os darperir cyfeiriad amgen hefyd. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r risg o amheuaeth y gellid newid neu gollu neu ddiinstrio'r ceisiadau wedi'u cwblhau ar ddamwain.

- 1.4 Dylai ymgyrchwyr anfon ymlaen, heb eu newid, unrhyw ffurflenni cais wedi'u cwblhau a roddir iddynt, i gyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol o fewn dau ddiwrnod gweithio o'u derbyn.**

I leihau'r risg bod ceisiadau pleidleisio absennol yn cael eu gwrthod gan fod y ffurflenni wedi'u cwblhau yn cyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ôl y dyddiad statudol cyn pleidlais, mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes oedi gormodol cyn anfon eich ffurflenni cais ymlaen pan dderbyniwch nhw'n uniongyrchol

- 1.5 Dylai ymgyrchwyr wastad esbonio goblygiadau gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu benodi dirprwy i etholwr.**

Mae'n bwysig bod etholwyr yn deall na fyddant yn gallu pleidleisio'n bersonol ar y diwrnod pleidleisio os byddan nhw neu eu dirprwy yn gwneud cais am bleidlais bost a'i derbyn, ac ni fyddant yn gallu pleidleisio'n bersonol os yw eu dirprwy penodedig wedi pleidleisio ar eu rhan eisoes. Er mwyn osgoi dyblygiad a phwysau gweinyddol diangen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, dylai ymgyrchwyr geisio sicrhau nad yw etholwyr a gynhwysir mewn rhestrau cyfredol o bleidleiswyr post neu bleidleiswyr

dirprwy, neu sydd eisoes wedi gwneud cais am bleidlais bost neu bleidlais ddirprwy ar gyfer pleidlais neilltuol, yn cyflwyno cais ychwanegol.

Ceisiadau am bleidlais drwy'r post

1.6 Ni ddylai ymgyrchwyr annog etholwyr i gael ey pecyn pleidleisio post wedi'i ailgyfeirio i unrhyw le arall heblaw'r cyfeiriad lle maent wedi cofrestru i bleidleisio.

Dylai etholwyr gymryd gofal i amddiffyn eu papur pleidleisio a'u pecyn pleidleisio post, a byddant yn gallu gwneud hynny orau yn eu cyfeiriad cartref, heblaw bod rhesymau cymhellol y byddai derbyn eu pecyn pleidleisio post yn y cyfeiriad y maent wedi'i gofrestru ynddo yn anymarferol. Rhaid i etholwyr nodi ar y ffurflen gais y rheswm pam fod angen i'w pecyn pleidleisio post gael ei anfon i gyfeiriad arall.

Ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy

1.7 Dylid annog etholwyr i ystyried opsiynau eraill i bobl weithredu fel dirprwy - gan gynnwys perthnasau neu gymdogion, er enghraifft - cyn bod ymgyrchydd yn cytuno i gael ei benodi fel dirprwy.

Er mwyn lleihau'r risg y bydd amheuon y gallai ymgyrchwyr geisio gosod pwysau gormodol ar etholwyr, ni ddylid annog etholwyr i benodi ymgyrchydd fel eu dirprwy.

2 Papurau pleidleisio drwy'r post

2.1 Ni ddylai ymgyrchwyr gyffwrdd neu drafod papur pleidleisio rhywun arall byth.

Os yw rhywun yn gofyn ichi am gymorth wrth gwblhau papur pleidleisio, bob tro dylech gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau yn y swyddfa etholiadau a allent drefnu ymweliad cartref os oes angen. Hefyd bydd cymorth ar gael i etholwyr mewn gorsafoedd pleidleisio.

2.2 Ni ddylai ymgyrchwyr wyllo pleidleiswyr yn cwblhau eu papur pleidleisio byth. Os ydych gyda phleidleisiwr pan ydynt yn cwblhau eu papur pleidleisio, cofiwch y dylent ei gwblhau'n gyfrinachol bob tro.

Dylech sicrhau bod y pleidleisiwr yn selio'r ddwy amlen yn bersonol ac yn uniongyrchol ar ôl cwblhau eu papur pleidleisio a datganiad pleidleisio drwy'r post. Os gofynnir ichi roi cyngor, mae'n dderbyniol ac yn aml yn ddefnyddiol i egluro'r broses pleidleisio, ond peidiwch â chynnig helpu rhywun i gwblhau eu papur pleidleisio.

2.3 Ni ddylai ymgyrchwyr ofyn neu annog pleidleiswyr i roi unrhyw bapur pleidleisio wedi'i gwblhau neu amlen bapur pleidleisio iddynt.

Lle bynnag mae'n ymarferol, dylid annog y pleidleisiwr i bostio neu ddanfôn y papur pleidleisio wedi'i gwblhau eu hunain. Os bydd pleidleisiwr nad yw'n gallu postio eu eu papur pleidleisio neu wneud trefniadau eraill i'w ddychwelyd mewn da bryd yn gofyn am gymorth, dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau i ofyn iddynt drefnu iddo gael ei gasglu. Gall y Swyddog Canlyniadau gytuno y byddai ym mudd y pleidleisiwr i chi ddanfôn y pecyn pleidleisio post i'r swyddfa berthnasol neu orsaf pleidleisio, os nad oes dewis ymarferol arall.

3 Ymgyrchu tu allan i fannau pleidleisio

3.1 Dylid caniatáu i ymgyrchwyr gyflwyno eu negeseuon i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn ardaloedd cyhoeddus y tu allan i fannau pleidleisio.

Ni ddylai staff yr orsaf bleidleisio a swyddogion yr heddlu geisio digalonni neu symud ymgyrchwyr sydd fel arall yn cyfathrebu'n heddychlon â phleidleiswyr, cyhyd â nad ydynt y tu mewn i dir y man pleidleisio neu'n rhwystro mynediad iddo. Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus i sicrhau bod eich ymagwedd yn gymesur a dylech gydnabod y gallai pleidleiswyr ystyried bod grwpiau o gefnogwyr yn fygythiol.

3.2 Dylai ymgyrchwyr gadw mynediad at fannau pleidleisio a'r palmantau o amgylch mannau pleidleisio'n glir er mwyn caniatáu i pleidleiswyr gael mynd i mewn.

Mae'r Swyddog Llywyddu'n gyfrifol am gynnal trefn yn y man pleidleisio, a gall staff yr orsaf bleidleisio neu swyddogion yr heddlu ofyn i ymgyrchwyr symud os ymddengys eu bod yn rhwystro pleidleiswyr rhag cael mynediad at y man pleidleisio.

4 Cwynion a honiadau ynghylch twyll etholiadol

4.1 **Dyali ymgyrchwyr fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu a chadarnhau unrhyw honiadau o dwyll etholiadol maent yn eu gwneud.**

Bydd yr heddlu'n ymchwilio i honiadau lle mae rhywun yn barod i roi tystiolaeth neu ddatganiad i gefnogi'r cwyn, ond gallai honiadau di-sail ynghylch twyll etholiadol danseilio hyder yn hygredd y broses etholiadol. Dylech sicrhau eich bod yn hyderus y gallwch ddarparu tystiolaeth i'r heddlu cyn ystyried a yw'n briodol i gyhoeddi unrhyw honiad penodol.

4.2 **Dylai ymgyrchwyr sy'n bryderus neu'n meddwl bod twyll etholiadol wedi digwydd godi'r mater gyda'u hasiant etholiadol neu blaid leol, neu gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau yr ardal.**

Efallai y byddant yn gallu egluro a gyflawnwyd trosedd etholiad-gysylltiedig neu beidio, a'i gyfeirio at yr heddlu os yn briodol neu ddarparu manylion cyswllt yr heddlu ar gyfer yr ardal berthnasol fel y gall ymgyrchwyr adrodd am yr honiad. Dylid codi pryderon ynghylch toriadau ar y rheolau cyllid gwleidyddol yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn Etholiadol.

4.3 **Dylai unrhyw ymgyrchydd sydd â thystiolaeth wirioneddol bod trosedd etholiadol wedi'i gyflawni adrodd amdano'n uniongyrchol a heb oedi wrth yr heddlu.**

Os yn briodol, bydd yr heddlu'n ymchwilio i'r mater. Mae gan bob llu'r heddlu Pwynt Cyswllt Unigol (sy'n hysbys fel SPOC) i arwain ar faterion etholiadol a fydd yn ymdrin yn uniongyrchol â'r mater neu roi cyngor i swyddogion lleol yr heddlu. Gall Y Comisiwn Etholiadol helpu i ddarparu manylion cyswllt ar gyfer SPOC yr heddlu lleol.

Cytwyd ac yn effeithiol o [Rhagfyr 2014]